2-64

# LLOFRUDDIAETH

AC

## HUNANLADDIAD DYCHRYNLLYD

GER

## *Llangadog, Sir Gaerfyrddin,*

**Yr hon a ddygwyddodd Hydref 9fed, 1881.**

———:o:———

*TON: -"CWYNFAN PRYDAIN."*

———:o:———

HOFFUS wlad y menyg *gwynion*,
  Ydoedd enw Cymru gynt;
Bellach, gwlad y menyg *duon*,
  Geilw pawb hi ar ei hynt;
Syned nefoedd, gwrided daear,
  Wyled pob dyngarwr mad,
Wrth fyfyrio ar gyflafan
  Ddofn glwyfa galon gwlad.

Plwyf Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin,
  Cartref amaethyddiaeth bur,—
Ie, dyna'r fan anhygoel
  Gwnawd yr alanasdra'n wir;
Dafydd Jones, neu "Dai Nantifan,"
  Oedd y creulawn fwystfil ddyn,
A thra'i dad oedd was yr Arglwydd,
  Mab y fall oedd ef ei hun.

Cychwyn wnaeth i Lanymddyfri,
  Yn nghwmpeini'i wraig ddinam;
Ond cyn cyrhaedd Croft-y-bywyd,
  Cweryl gawd rhwng tad a mam;
Ofnau'r fam yn awr ymchwyddent
  Uwch ac uwch fel llanw'r môr;
Ing ei chalon yn ei llygad,
  Waeddai am gyfryngiad Iôr.

Gwel, fy nghyfaill, yr anfad-ddyn,
  Digter sy'n ei lygad llym;
Ar ei wyneb, megys brenin,
  Mae creulondeb yn ei rym;
Gwag, ac O! mor wag yw'i galon
  O dynerwch dynol ryw;
Gwel! mae'n tynu'i gyllell allan,
  I drywanu'i briod gwiw.

Fel mae'n codi'r gyllell fyny,
  Lleisiau lu yn eiriol sydd;
Yntau, coeliaf, rhwng dau feddwl,
  Byw i Dduw neu'r diafol fydd;
Amddifadrwydd pedwar plentyn
  Lefa gyda gwendid rhyw,
A chydwybod, hithau ddyrcha
  Weddi am i'r fam gael byw.

Ond pa ddyben ydyw eiriol?
  Dim ond dangos erchyll bla,
Dyn sy'n fyw i bob drwgdeimlad,
  Ond marw byth i deimlad da;
Er pob eiriol, do, 'r anfad ddyn
  Dorodd wddf ei anwyl wraig!—
Gweithred fydd yn gwaeddi dial
  Tra b'o clogwyn uwch yr aig.

W 12983 YRC520 S185

Euog ffy heb neb yn erlid,
  Felly'r dyn mewn enw hwn,
Felly wrth erch angeu'i briod,
  Teimlai'i farw'i hun yn nghlwm;
Cledd euogrwydd wan ei enaid,
  Yntau'i gorff a dyr yn groes,
Felly coda UN haul natur,
  Tra machluda DAU haul oes.

Ac fel hyn daeth Croft-y-*bywyd*,
  Yn ddu Croft-yr-*angeu* gref,
Croft acenion lleddfus gwynion,
  Croft bloeddiadau rhwygai'r nef;
Croft i'r awel wrth fyn'd heibio,
  Wylo'n dost dros gyflwr gwlad,
Croft i ddagrau mam i fethu
  Boddi drwg-fwriadau tad.

Mab a thair o ferched glandeg
  Ar fôr amser welir 'nawr,
Megys plu yn cael eu taflu
  Gan ruthriadau'r 'storom fawr;
Ffug-gyfeillion fel môr-adar,
  Oddiwrthynt sy'n pellhau,
Ond mae'n gysur iddynt gofio
  Fod eu Duw yn agoshau.

Colofn ddu yw'r drist gyflafan,
  O niweidiau arfer drwg,
Er y dechreu hyn mewn crechwen,
  Buan try y wen yn ŵg;
Mynych try yn wir wallgofrwydd,
  Annedwyddwch hyll ei wedd,
Anffyddlondeb priodasol,
  Ing ac anamserol fedd.

# Molawd Dyffryn Tywi

——:o:——

MAE glenydd Tywi serchog
  Ar foreu heulog haf,
Yn ymlid pob doluriau,
  A gwella clwyfau'r claf;
Y dolydd heirdd meillioncg,
  Llysieuog, deiliog dir,
Sy'n ail i fro Paradwys,
  Yn wiwlys oll yn wir;
Y perthi'n llawn rhosynau,
  A'r blodau sydd heb lai,
    Fel cadarn gâd,
    Yn harddu'r wlad,
  A dwyn iachâd yn chwai:
Yr awel fwyn iachusol,
  A'i siriol hyfryd su,
    A gwyd y gwan
    A'r llesg i'r lan,
  Hyfrydlan Ganaan gu.

A choda yr uchedydd
  I gaerydd gwlad y gwawl,
I ddatgan melus garol,
  Dymunol glod a mawl;
Y fronfraith ar y brigyn
  A'i thelyn bêr ei thant,
Sydd yn adfywio'r dyffryn,
  A phuro bryn a phant.
Cerddorion mewn Eisteddfod,
  Fu'n haeddglod iawn cyn hyn,
    Ni chanent mwy
    Pe clywent hwy
  Gydglymiad côr y glyn;
Am hyny, wyr Caerfyrddin,
  Dadgenwch oll yn nghyd
    Ei glod heb lèn
    Hyd entrych nen,
  Mae'n ben dyffrynoedd byd.